



CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU  
GOFAL A LLESIANT **GOGLEDD CYMRU**

**NORTH WALES** SOCIAL CARE AND WELL-BEING  
SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE

# Strategaeth Anabledd Dysgu Gogledd Cymru

## Adroddiad ar yr ymgynghoriad Awst 2018



Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Betsi Cadwaladr  
University Health Board



Iechyd Cyhoeddus  
Cymru  
Public Health  
Wales



## **Cysylltwch â ni**

Cydweithredfa Gwella Gwasanaethau Gofal a Llesiant Gogledd Cymru

Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, LL15 1YN

E-bost: [sarah.bartlett@denbighshire.gov.uk](mailto:sarah.bartlett@denbighshire.gov.uk)

Ffôn: 01824 712432

<https://www.cydweithredfagogleddcymru.cymru>

## Cynnwys

Cyflwyniad.....	4
Cefndir.....	4
Dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus .....	4
Egwyddorion ymgynghori .....	5
Ymgynghori ac ymgysylltu.....	6
Y broses ymgynghori .....	6
Dulliau ymgynghori .....	7
Cynllun hyrwyddo .....	7
Adolygiad o ymgynghori ac ymgysylltu .....	9
Sefydliadau sydd wedi'u cynrychioli yn yr arolwg ar-lein .....	14
Awdurdodau lleol ac iechyd .....	14
Grwpiau a sefydliadau defnyddwyr gwasanaethau .....	14
Canfyddiadau'r ymgynghoriad.....	16
Arolwg ymgynghori .....	16
Dulliau ymchwil .....	16
Canfyddiadau .....	16
Gwasanaethau sy'n gweithio'n dda.....	17
Beth sydd angen ei wella .....	18
Lle da i fyw .....	21
Rhywbeth i'w wneud .....	22
Ffrindiau, teulu a pherthnasoedd.....	24
Bod yn ddiogel .....	24
Bod yn iach .....	25
Y cymorth priodol .....	26
Casgliadau .....	30
Digwyddiad 'Ymlaen Gyda'n Gilydd' .....	30
Fforwm darparwyr.....	32
Digwyddiad ymgysylltu â staff.....	32
Canfyddiadau'r digwyddiad .....	32
Cyfeiriadau .....	34

## Cyflwyniad

Cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb i ganfod anghydraddoldebau a allai godi wrth ddatblygu a chyflawni Strategaeth Anabledd Dysgu Gogledd Cymru. Defnyddiwyd y wybodaeth a gafwyd drwy'r broses hon i ddatblygu Strategaeth Anabledd Dysgu Gogledd Cymru.

Mae'r adroddiad hwn yn darparu manylion yr ymgynghoriad a gynhaliwyd yn rhan o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac mae'n darparu tystiolaeth am y ffordd rydym yn bodloni gofynion dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus.

## Cefndir

Mae cymorth i bobl ag anableddau dysgu yn flaenoriaeth yn [Cynllun Rhanbarthol Gogledd Cymru \(Cynllun Ardal\)](#) ar sail yr hyn roedd pobl wedi dweud wrthym ei fod yn bwysig iddynt yn rhan o'r [asesiad o boblogaeth](#) a luniwyd gan y [Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol](#).

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cynnwys dyletswydd statudol i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol roi blaenoriaeth i integreiddio gwasanaethau mewn perthynas â phobl ag anableddau dysgu (Llywodraeth Cymru, 2015).

Mae'r Strategaeth Anabledd Dysgu yn egluro sut byddwn yn mynd ati i integreiddio gwasanaethau anabledd dysgu yng Ngogledd Cymru. Mae wedi'i datblygu ar y cyd gan y chwe chyngor yng Ngogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) gyda chymorth Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Bydd angen cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer y camau gweithredu a chynlluniau a ddatblygir i gyflawni'r strategaeth er mwyn asesu eu heffaith ddichonol.

## Dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 wedi cyflwyno dyletswydd newydd i'r sector cyhoeddus sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob corff cyhoeddus fynd i'r afael â gwahaniaethu, hybu cyfle cyfartal a hyrwyddo cysylltiadau da. Mae'r tabl isod yn amlinellu dyletswyddau cyrff cyhoeddus.

<b>Rhaid i gyrff cyhoeddus roi sylw dyladwy i'r angen i wneud y canlynol:</b>	<b>Mae rhoi sylw dyladwy i hybu cydraddoldeb yn golygu:</b>
Dileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall sydd wedi'i wahardd o dan y Ddeddf.	Dileu neu leihau gwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth y mae pobl yn eu profi o ganlyniad i'w nodwedd warchoddedig.

Hybu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a'r rheini nad ydynt yn ei rhannu.	Cymryd camau i gwrdd ag anghenion pobl o grwpiau gwarchoddedig lle mae'r rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill.
Meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a'r rheini nad ydynt yn ei rhannu.	Cymryd camau i adeiladu cymunedau lle mae pobl yn teimlo'n hyderus eu bod yn perthyn ac yn gyfforddus wrth gymysgu a rhyngweithio â phobl eraill.

Mae dyletswyddau cyfreithiol penodol hefyd ar gynghorau yng Nghymru sydd wedi'u nodi yn Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Cymru) 2011 sy'n cynnwys asesu'r effaith o bolisiau a chynlluniau perthnasol – yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

Er mwyn gosod sylfaen gadarn i'r Strategaeth Anabledd Dysgu rydym wedi:

- adolygu'r data o ddangosyddion poblogaeth a mesur perfformiad sydd wedi'u hargymell yn y catalog data a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru, ynghyd â data lleol, rhanbarthol a chenedlaethol eraill sy'n berthnasol;
- ymgynghori mor eang â phosibl ledled rhanbarth Gogledd Cymru gan gynnwys y cyhoedd, cydweithwyr a phobl â nodweddion gwarchoddedig;
- adolygu llenyddiaeth ymchwil ac ymgynghori berthnasol gan gynnwys deddfwriaeth, strategaethau, cynlluniau comisiynu, asesiadau o anghenion ac adroddiadau ar ymgynghoriadau.

Mae manylion y data lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, yr arolwg llenyddiaeth a chrynodeb o ganfyddiadau'r ymgynghoriad wedi'u darparu yn [adroddiad yr asesiad o boblogaeth](#) ac yn yr [adroddiad ar yr ymgynghoriad ar y cynllun rhanbarthol](#).

Mae'r adroddiad hwn yn disgrifio'r ymgynghori ychwanegol a gynhaliwyd ar gyfer y Strategaeth Anabledd Dysgu:

- pwy rydym wedi ymgynghori â nhw;
- sut rydym wedi ymgynghori;
- yr adborth o'r ymgynghoriad.

## Egwyddorion ymgynghori

Rhan allweddol o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yw ymgynghori â phobl y gall y Strategaeth Anabledd Dysgu effeithio arnynt ac yn benodol pobl â nodweddion gwarchoddedig. Y nodweddion gwarchoddedig yw:

- Oed
- Anabledd
- Ailbennu rhywedd
- Priodas a phartneriaeth sifil
- Beichiogrwydd a mamolaeth

- Hil
- Crefydd a chredo
- Rhyw
- Cyfeiriadedd rhywiol
- Yr iaith Gymraeg

Mae cyfraith achosion wedi darparu set o egwyddorion ymgynghori sy'n disgrifio'r disgwyliad cyfreithiol sydd ar gyrff cyhoeddus wrth iddynt ddatblygu strategaethau, cynlluniau a gwasanaethau. Gelwir y rhain yn Egwyddorion Gunning:

1. Rhaid ymgynghori pan yw'r cynnig ar y cam llunio.
2. Rhaid cyflwyno rhesymau digonol dros y cynnig i ganiatáu ystyried ac ymateb deallus.
3. Rhaid rhoi amser digonol ar gyfer ystyried ac ymateb.
4. Rhaid cymryd cynnyrch yr ymgynghoriad i ystyriaeth yn gydwytbodol.

Mae cynghorau lleol yng Ngogledd Cymru wedi mabwysiadu polisi rhanbarthol ar ymgysylltu â dinasyddion (Cyngor Sir Ynys Môn et al., 2016). Mae'r polisi hwn wedi'i seilio ar yr egwyddorion cenedlaethol ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd yng Nghymru a'r egwyddorion cydgynhyrchu a oedd yn sail i'n cynllun ymgynghori.

## Ymgynghori ac ymgysylltu

Cafwyd ymgynghori ac ymgysylltu helaeth â phlant, pobl ifanc ac oedolion ag anableddau dysgu a'u rhieni/gofalwyr ar gyfer yr asesiad o boblogaeth a'r cynllun rhanbarthol. Roedd hyn yn cynnwys gwaith gan Grŵp Cyfranogi Anableddau Dysgu Gogledd Cymru sy'n cynnwys cynrychiolwyr grwpiau hunaneirioli o bob rhan o Ogledd Cymru. Mae'r gwaith hwn wedi'i ystyried wrth ddatblygu'r strategaeth ochr yn ochr â'r gwaith ymgynghori ac ymgysylltu ychwanegol a gyflawnwyd yn unswydd i gyfrannu at lunio'r strategaeth.

### Y broses ymgynghori

Roeddem wedi datblygu set ddrafft o themâu ar gyfer y strategaeth ar sail y canfyddiadau o ymgysylltu hyd hynny ac wedi ymgynghori ar y rhain gyda Grŵp Cyfranogi Anableddau Gogledd Cymru a'r rhwydwaith darparwyr rhanbarthol. Dosbarthwyd y rhain yn eang wedyn yn rhan o'r ymgynghoriad ynghyd â gweledigaeth ar gyfer gwasanaethau anabledd dysgu yng Ngogledd Cymru (a ddatblygwyd yn rhan o waith rhanbarthol gan Mobius yn 2008). Roeddem wedi gofyn y cwestiynau canlynol.

#### Cwestiynau ymgynghori

1. Ydych chi'n credu mai'r meysydd hyn yw'r rhai y dylid edrych arnynt?
2. Beth sy'n gweithio'n dda ar hyn o bryd yn eich barn chi?

3. Beth sydd angen ei wella yn eich barn chi? Nodwch eich syniadau ar gyfer gwella gwasanaethau a ffyrdd i wneud y mwyaf o'r adnoddau sydd yn ein cymunedau eisoes, yn cynnwys pobl ag anableddau dysgu, ffrindiau a theuluoedd, grwpiau cymunedol, sefydliadau gwirfoddol a gweithwyr proffesiynol.

Roeddem hefyd wedi llunio fersiwn hawdd ei darllen o'r holiadur drwy ymgynghori â'r Grŵp Cyfranogi Anableddau Dysgu.

Roedd yr amserlen ar gyfer datblygu'r Strategaeth Anabledd Dysgu fel a ganlyn.

Mis	Camau Gweithredu
Ionawr 2017	Digwyddiad cychwynnol i greu gweledigaeth (Ymlaen Gyda'n Gilydd).
Medi 2017	Cwmpasu'r gallu i ddatblygu'r strategaeth.
Rhwng Hydref 2017 a Mawrth 2018	Cytuno ar gynllun y prosiect. Casglu data llinell sylfaen ar gyfer y strategaeth.
Rhwng Ebrill a Gorffennaf 2018	Ymgysylltu a chydgyhyrchu â phobl sy'n defnyddio gwasanaethau, gofalwyr, darparwyr, staff rheng flaen a rhanddeiliaid eraill.
Rhwng Awst a Medi 2018	Adolygu'r strategaeth, cytuno ar flaenoriaethau a drafftio cynlluniau gweithredu.
Rhwng Hydref a Rhagfyr 2018	Ymgynghori ar y strategaeth ddiwygiedig a llunio'r drafft terfynol. Cyflwyno'r drafft terfynol o'r strategaeth i fyrdau a phwyllgorau priodol i'w gymeradwyo.
Ionawr 2019	Rhoi'r strategaeth ar waith.

## Dulliau ymgynghori

Y dulliau ymgynghori a ddefnyddiwyd oedd:

- Cylchredeg holiadur ar-lein a holiadur hawdd ei ddarllen yn eang ymysg staff, sefydliadau partneriaid, y panel dinasyddion, defnyddwyr gwasanaethau ac aelodau eraill o'r cyhoedd.
- Grwpiau trafod a chyfweliadau â phlant, pobl ifanc ac oedolion ag anableddau dysgu, rhieni/gofalwyr a rhieni ag anableddau dysgu. Roedd yr elfen hon wedi'i harwain gan Banel Dinasyddion Gogledd Cymru.
- Digwyddiadau ymgynghori ar gyfer darparwyr gwasanaethau a staff awdurdodau lleol ac iechyd.

## Cynllun hyrwyddo

Darparwyd manylion yr ymgynghoriad, yn cynnwys holiadur ar-lein a fersiwn hawdd ei darllen o'r holiadur, ar ein gwefan [www.cydweithredfagogleddcymru.cymru](http://www.cydweithredfagogleddcymru.cymru). Roeddem wedi hyrwyddo'r ddolen ymysg aelodau'r Bartneriaeth Anabledd Dysgu (sy'n cynrychioli'r chwe awdurdod lleol ac iechyd) ac ymysg pobl sydd ar restr bostio'r strategaeth anabledd dysgu a oedd yn cynnwys aelodau o'r fforwm

darparwyr rhanbarthol. Anfonwyd y negeseuon e-bost cyntaf ar 23 Ebrill 2018 a nodyn atgoffa ar 11 Mehefin 2018. Anfonwyd datganiad i'r wasg drwy bob un o'r chwe awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd.

Roedd Panel Dinasyddion Gogledd Cymru wedi rhannu'r arolwg drwy Facebook, y wefan ([www.llaisygogledd.wales](http://www.llaisygogledd.wales)), llythyrau a galwadau ffôn a chyfarfodydd wyneb yn wyneb. Cafwyd mwyafrif yr ymatebion o gyfarfodydd wyneb yn wyneb.

Yn ogystal â hyn, anfonwyd y ddolen i'r arolwg ar-lein i'r cynghorau gwirfoddol sirol isod, gan ofyn iddynt ei chylchredeg i'w rhwydweithiau:

- Mantell Gwynedd (Gwynedd)
- Medrwn Môn (Ynys Môn)
- CGGC (Conwy)
- CGGSDd (Sir Ddinbych)
- CGLISFf (Sir y Fflint)
- CMGW (Wrecsam)

Er mwyn helpu i gyrraedd pobl â nodweddion gwarchoddedig, cylchredwyd y ddolen gan Rwydwaith Cydraddoldeb Rhanbarthol Gogledd Cymru i'w aelodau gyda chais i'w chylchredeg yn eang.

Anfonwyd gwybodaeth at aelodau'r:

- Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol
- Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru
- Penaethiaid Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion Gogledd Cymru
- Penaethiaid Gwasanaethau Plant Gogledd Cymru
- Panel Dinasyddion Gogledd Cymru

Rhoddwyd cyflwyniadau ar y strategaeth yng nghyfarfodydd y canlynol:

- Partneriaeth Anabledd Dysgu Gogledd Cymru
- Rheolwyr Gwasanaethau Plant Anabl Gogledd Cymru
- Digwyddiad Rhanbarthol i Grwpiau Hunaneirioli Gogledd Cymru
- Pwyllgor Strategaeth, Partneriaethau ac Iechyd Poblogaeth BIPBC
- Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid BIPBC
- Grŵp Partneriaeth COG4 Conwy
- Penaethiaid Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion Gogledd Cymru
- Penaethiaid Gwasanaethau Plant Gogledd Cymru
- Grŵp Arweinyddiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru
- Y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol

Roeddem hefyd yn bresennol mewn cyfarfod o rwydwaith rhanbarthol i rieni sydd ag anableddau dysgu.



Mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi cylchredeg y ddolen i gynrychiolwyr y trydydd sector yn rhwydwaith arweinwyr yr asesiadau poblogaeth rhanbarthol ac mae Anabledd Cymru wedi rhannu manylion ar ei dudalennau Facebook.

## Adolygiad o ymgynghori ac ymgysylltu

Cafwyd cyfanswm o 175 o ymatebion i'r ymgynghoriad ac roedd tudalen y cynllun rhanbarthol wedi'i gweld tua 200 o weithiau ar y wefan.

Mae tabl 1 isod yn dangos dadansoddiad o'r ymatebion gan aelodau o'r cyhoedd a chynrychiolwyr sefydliadau ac mae tabl 2 yn dangos nifer y bobl â gwahanol nodweddion gwarchoddedig a gymerodd ran yn yr arolwg.

Mae tabl 1 a thabl 2 yn dangos bod mwyafrif yr ymatebion wedi'u rhoi gan bobl ag anabledd dysgu, yn cynnwys rhieni ag anhawster dysgu. Roeddem wedi cyrraedd pobl ym mhob grŵp oedran, pobl sydd ag anabledd neu salwch/cyflwr iechyd hirsefydlog a gofalcon, a siaradwyr Cymraeg a Saesneg. Cawsom ymatebion gan fenywod a dynion er na chafwyd cynifer o ymatebion gan ddynion. Roeddem hefyd wedi cael nifer bach o ymatebion gan bobl â gwahanol fathau o statws priodasol, hunaniaeth ethnig, rhywioldeb a hunaniaeth rhywedd. Nid oeddem wedi cael nifer mawr o ymatebion gan bobl â nodweddion gwarchoddedig o ran hunaniaeth genedlaethol (heblaw o'r DU ac Iwerddon) na chrefydd. Roeddem wedi sicrhau bod yr arolwg a'r nodiadau atgoffa wedi'u hanfon i grwpiau a rhwydweithiau o bobl â'r nodweddion gwarchoddedig hyn. Byddwn hefyd yn rhoi gwybod i'r bobl sy'n gyfrifol am gyflawni'r strategaeth am y bylchau hyn yn yr ymgynghoriad fel y byddant yn gallu cymryd unrhyw gamau ychwanegol sydd eu hangen i ddileu gwahaniaethu dichonol.

Mae'n bwysig nodi bod y tablau isod yn dangos yr atebion a roddwyd i'r holiadur cydraddoldeb yn unig. Er mwyn cael darlun llawn o'r ymgysylltu â phobl â nodweddion gwarchoddedig, dylid ystyried y ffigurau hyn ochr yn ochr â'r rhestr o sefydliadau a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn ogystal â [sefydliadau](#) a ymatebodd i'r ymgynghoriad ar y cynllun rhanbarthol a'r [sefydliadau a grwpiau defnyddwyr gwasanaethau](#) a ymatebodd i'r ymgysylltu mwy manwl a gafwyd ar gyfer yr asesiad o boblogaeth a oedd yn sail i'r cynllun rhanbarthol.

Roeddem wedi defnyddio'r data hyn i fonitro'r ymatebion yn ystod y cyfnod ymgynghori ac wedi annog grwpiau sy'n cynrychioli grwpiau a dangynrychiolwyd i rhannu'r arolwg a chymryd rhan.

**Tabl 1: Nifer yr ymatebion gan aelodau o'r cyhoedd a sefydliadau**

Math o ymateb	Nifer	% o'r ymatebion
Person ag anabledd dysgu	70	
Cynrychiolydd sefydliad	65	
Rhiant neu ofalwr i berson sydd ag anabledd dysgu	30	
Aelod o Banel Dinasyddion Gogledd Cymru	60	
Rhiant ag anawsterau dysgu	<5	
Cyfanswm	175	

Mae'n bosibl bod rhai pobl wedi ticio mwy nag un blwch. Mae'r rhifau wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf er mwyn atal datgelu gwybodaeth bersonol ac mae'n bosibl nad ydynt yn adio i'r cyfanswm.

**Tabl 2.1: Oed**

Oed	Nifer
0-24	<5
25-34	5
35-44	20
45-54	40
55-64	20
65 ac yn hŷn	5
Dewis peidio â dweud	15
Dim gwybodaeth ar gael	75
Cyfanswm	175

Mae'r rhifau wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf er mwyn atal datgelu gwybodaeth bersonol ac mae'n bosibl nad ydynt yn adio i'r cyfanswm.

**Tabl 2.2: Rhyw**

Rhyw	Nifer
Benywaidd	70
Gwrywaidd	30
Dewis peidio â dweud	<5
Dim gwybodaeth ar gael	75
Cyfanswm	175

**Tabl 2.3: Hunaniaeth ethnig**

Hunaniaeth ethnig	Nifer
Gwyn	100
Du neu etifeddiaeth gymysg	<5
Dewis peidio â dweud	<5
Dim gwybodaeth ar gael	75
Cyfanswm	175

**Tabl 2.4: Dewis iaith**

Dewis iaith	Nifer
Saesneg llafar	80
Cymraeg llafar	10
Cymraeg a Saesneg llafar	15
Dim gwybodaeth ar gael	75
Cyfanswm	175
Saesneg ysgrifenedig	90
Cymraeg ysgrifenedig	5
Cymraeg a Saesneg ysgrifenedig	10
Dim gwybodaeth ar gael	75
Cyfanswm	175

**Tabl 2.5: Anabledd**

Anabledd	Nifer
Anabledd / anhawster dysgu	70
Salwch/cyflwr iechyd hirsefydlog	15
Nam corfforol	<5
Cyflwr iechyd meddwl	<5
Nam synhwyraidd	<5
Cyfanswm y bobl	75

Nid yw'r rhifau'n adio i'r cyfanswm gan fod mwy nag un anabledd gan rai pobl.

**Tabl 2.6: Crefydd**

<b>Crefydd</b>	<b>Nifer</b>
Cristnogol	45
Dim	30
Arall	<5
Dewis peidio â dweud	25
Dim gwybodaeth ar gael	75
Cyfanswm	175

**Tabl 2.7: Rhywioldeb**

<b>Rhywioldeb</b>	<b>Nifer</b>
Heterorywiol	85
Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol	<5
Dewis peidio â dweud	15
Dim gwybodaeth ar gael	75
Cyfanswm	175

**Tabl 2.8: Gofalwyr**

<b>Gofalwr</b>	<b>Nifer</b>
le	35
1-19 awr	15
20-49 awr	10
50 awr neu fwy	10
Na	60
Dewis peidio â dweud	10
Dim gwybodaeth ar gael	75
Cyfanswm	135

**Tabl 2.9: Statws priodasol**

<b>Statws priodasol</b>	<b>Nifer</b>
Priod neu mewn partneriaeth sifil o'r un rhyw	60
Sengl	10
Wedi ysgaru neu wedi cael gwahaniad cyfreithiol	5
Gweddw	<5
Dewis peidio â dweud	20
Dim gwybodaeth ar gael	75
Cyfanswm	175

---

## Sefydliadau sydd wedi'u cynrychioli yn yr arolwg ar-lein

Mae rhestr isod o sefydliadau yr oedd eu staff wedi cymryd rhan yn yr ymgynghoriad ar-lein. Roeddem hefyd wedi cynnal digwyddiadau ymgysylltu â darparwyr a staff awdurdodau lleol ac iechyd felly roedd mwy o unigolion a sefydliadau wedi cymryd rhan yn yr ymgynghoriad nag sydd wedi'u rhestru yma. Yn ogystal â hyn, rhannwyd y strategaeth ddrafft yn eang er mwyn rhoi rhagor o gyfleoedd i unigolion a sefydliadau partneriaid i ddylanwadu ar y strategaeth a'i ffurfio.

### Awdurdodau lleol ac iechyd

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Cyngor Sir Ynys Môn
- Cyngor Gwynedd
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Cyngor Sir Ddinbych
- Cyngor Sir y Fflint
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Ymysg y staff iechyd a oedd wedi ymateb roedd y Tîm Anabledd Dysgu Cymunedol, Nyrsys Anabledd Dysgu, Therapi Galwedigaethol, gwasanaethau anabledd dysgu plant, gwasanaethau cleifion mewnol i bobl ag anableddau dysgu.

Cafwyd y rhan fwyaf o'r ymatebion gan awdurdodau lleol oddi wrth staff mewn adrannau gwasanaethau cymdeithasol, mewn gwasanaethau plant ac oedolion.

### Grwpiau a sefydliadau defnyddwyr gwasanaethau

- AVOW (Cyngor Gwirfoddol Sirol)
- Coop Cartrefi Cymru (Asiantaeth gofal cartref ddi-elw)
- Centre of Sign-Sight-Sound (Cynorthwyo pobl â nam synhwyrdd)
- Cymdeithas Dai Clwyd Alyn (Darparwr tai)
- Cymdeithas Cludiant Cymunedol (Hybu cludiant cymunedol cynhwysol a hygyrch ledled Cymru)
- Cyswllt Conwy (Sefydliad gwirfoddol annibynnol sy'n gweithio yn sir Conwy i hyrwyddo hawliau oedolion ag anabledd dysgu i gael dewisiadau a chyfleoedd cyfartal)
- Grange Residential Care Cyf (Cartref gofal preswyl i oedolion ag anabledd dysgu a/neu Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig yn Llanelwy)
- Partneriaeth Cynllunio Anabledd Dysgu Sir y Fflint (Grŵp sy'n cynnwys cynrychiolwyr defnyddwyr gwasanaethau, gwasanaethau eirioli, darparwyr gwasanaethau defnyddwyr a rhieni)
- Home Instead Senior Care (Darparwr gofal iechyd)
- Canolfan Byd Gwaith (Darparu gwasanaeth sy'n ceisio helpu pobl i gael gwaith neu eu hyfforddi i ddeall y gwasanaethau sydd ar gael i bobl sydd ag anableddau a chyflyrau iechyd).

- Lifeways (Darparwr gwasanaeth byw â chymorth i oedolion sydd ag anabledd dysgu/cyflwr iechyd meddwl).
- Mencap (Cynorthwyo unigolion sydd ag anabledd dysgu).
- MHC (Social Care) UK Cyf (Darparu gwasanaethau preswyl i bobl ag anableddau dysgu, awtistiaeth, a diagnosis am gydafiachedd a phobl ag iechyd meddwl gweithredol)
- Grwpiau Hunaneirioli Cymdeithas Cynghori ac Adfocatiaeth Gogledd Cymru
- Potens (Cwmni cyfyngedig preifat sy'n darparu cymorth i oedolion iau yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae'n helpu oedolion ag anableddau dysgu ac anawsterau iechyd meddwl.
- PSS (Cysylltu Bywydau / Lleoli Oedolion)
- Stand CIC Gogledd Cymru (Cymorth i rieni)
- Voyage Care (Darparu cymorth i unigolion)

# Canfyddiadau'r ymgynghoriad

## Arolwg ymgynghori

### Dulliau ymchwil

Cynhaliwyd yr arolwg rhwng 23 Ebrill 2018 a 20 Gorffennaf 2018. Mae manylion am y ffordd y cafodd ei hyrwyddo a phwy a gymerodd ran wedi'u darparu uchod. Cafodd yr atebion i'r cwestiynau penagored eu codio drwy ddefnyddio meddalwedd Catma. Yn y dadansoddiad rydym wedi ceisio cyfleu pa mor aml yr oedd themâu wedi'u crybwyll drwy ddweud a oedd sylwadau wedi'u gwneud gan un person, nifer bach o bobl neu nifer mawr o bobl. Nid yw hyn yn gyfystyr â dweud nad yw mater yn bwysig am mai un person sydd wedi'i godi a gall adlewyrchu barn nifer o bobl eraill hefyd, y gallwn ei gwirio ac ymchwilio iddi ymhellach.

Mae gwybodaeth a all ddangos pwy yw'r ffynhonnell fel enwau pobl a sefydliadau wedi'u dileu yn y dyfyniadau sydd wedi'u cynnwys.

### Canfyddiadau

At ei gilydd, roedd 93% o ymatebwyr yn cytuno bod themâu'r strategaeth yn briodol. Ymhlith sylwadau o blaid y themâu roedd y canlynol:

“Mae'r meysydd yn berffaith, maen nhw'n cwmpasu nifer o agweddau ar fywyd pob dydd ac maent yn gryno”

“Maen nhw i gyd yn bwysig i wneud i mi fod yn hapus”

Rhai o'r awgrymiadau a gafwyd am themâu ychwanegol neu ehangu themâu oedd:

- Yr angen am gael llais, dewis a rheolaeth go iawn gyda phwyslais ar hawliau a chydarddoldeb. Roedd un person wedi dweud bod angen i ni fynd ymhellach na holiaduron neu ymgynghori tuag at strategaeth sydd wedi'i chydgynhyrchu a gwasanaethau wedi'u cydgyhychu.
- Gwneud mwy i gynnwys ac integreiddio pobl ag anableddau dysgu yn y gymuned ehangach, yn cynnwys yr angen i hyfforddi staff am anawsterau dysgu penodol ac ymwybyddiaeth o'r ffaith nad yw pob math o anabledd yn weladwy.
- Cymorth eirioli ar gyfer unigolion.
- Cymorth i bobl ag anableddau dysgu dwys a lluosog, anghenion iechyd cymhleth a/neu ymddygiad heriol.
- Cymorth i bobl sydd hefyd ag anghenion eraill fel anghenion iechyd meddwl, sydd ag awtistiaeth neu sy'n ymwneud â'r system cyfiawnder troseddol ac sydd ag anghenion fforensig.



- Seibiant i ofalwyr – yn cynnwys hynny ar gyfer pobl sydd ag anableddau dysgu dwys a lluosog; cydgomisiynu seibiant ar gyfer pobl ag ymddygiad heriol ac anghenion iechyd ychwanegol; a'r gallu i bobl ag anableddau dysgu fynd ar wyliau heb eu rhieni. Mae angen ystyried yr effaith ar ofalwyr o ddarparu gofal a chymorth.
- Cael digon o arian i fyw arno.
- Ymyrraeth gynnar, er enghraifft, “gwrando ar y teulu pan yw'n galw am gymorth cyn iddynt fynd i argyfwng”.
- Y blynyddoedd cynnar a chael y dechrau iawn mewn bywyd.
- Pwysigrwydd cludiant.
- Anghenion pobl hŷn ag anableddau dysgu a gofalwyr hŷn.

Roedd 7 o bobl ag anableddau dysgu (4%) a ddywedodd nad oeddent yn sicr a oedd rhai o'r pethau'n bwysig iddynt, yn cynnwys bod yn iach, bod yn ddiogel, cael lle da i fyw a'r cymorth priodol. Pethau eraill a oedd yn bwysig i bobl oedd y ffordd o'u trin, er enghraifft, gweithwyr cymorth a oedd yn deall eu bod yn 'hoffi tŷ glân'.

### **Gwasanaethau sy'n gweithio'n dda**

- Y cymorth y mae pobl yn ei gael gan eu teulu a darparwyr oedd y peth a oedd yn cael ei restru amlaf fel rhywbeth sy'n gweithio'n dda, er enghraifft, “cael cymorth gan bobl sy'n fy adnabod i, fy rheolweithiau a'm ffyrdd o ymddwyn” a “Byddaf yn cael help da gan fy eiriolwr a'r gweithwyr cymorth sy'n dod i'm gweld”.
- Yn ogystal â gweithwyr cymorth da, cyfeiriwyd at staff eraill, er enghraifft, “Mae gen i weithwr cymdeithasol da” a “mae rhai lleoedd yn gweithio'n dda lle mae timau staff da”.
- Roedd rhai pobl wedi sôn am gydweithio rhwng cydweithwyr mewn awdurdodau lleol, timau a gydleolwyd a thimau amlasiantaeth, a gwaith da rhwng gwasanaethau cymdeithasol a sefydliadau'r trydydd sector.
- Nodwyd hefyd fod gwaith pobl yn gweithio'n dda, er enghraifft, “Rwyf yn cael cymorth yn fy ngwaith yn [enw'r gweithle]. Rwyf wrth fy modd yno”, “Rwyf yn gweithio yn [enw'r gweithle] dau ddiwrnod yr wythnos. Mae hyn yn dda iawn i mi gan fy mod yn dysgu sgiliau byw sylfaenol”.
- Seibiant i ofalwyr, er enghraifft, “Mae seibiant wedi bod yn ffactor pwysig i ni fel teulu ac mae [enw'r darparwr] wedi chwarae rhan fawr yn hynny ac wedi darparu cymorth sydd wedi bod yn ddelfrydol i ni”.
- Roedd nifer bach o bobl wedi dweud bod cyllidebau cymorth, taliadau uniongyrchol a dulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn gweithio'n dda.
- Roedd dau berson wedi cyfeirio at addysg dda, yn cynnwys coleg preswyl.
- Elusennau sy'n darparu gweithgareddau fel nofio.

- Y gwasanaeth cyswllt aciwt gyda sylwadau ychwanegol bod angen ei ddefnyddio a'i wella.

Roedd dau berson hefyd wedi dweud nad oes dim yn gweithio'n dda ar hyn o bryd.

### **Beth sydd angen ei wella**

Mae'r adborth am yr hyn sydd angen ei wella wedi'i ddadansoddi isod ar sail themâu. Yn ogystal â hyn, roedd anawsterau sy'n gallu rhwystro pobl rhag profi canlyniadau da dan bob un o'r themâu, sef

- **Cymorth i ofalwyr:** Roedd nifer mawr o bobl yn yr ymgynghoriad wedi sôn am seibiant i ofalwyr. Rhai o'r materion penodol a nodwyd oedd diffyg seibiant byr i deuluoedd, darparu seibiant ar gyfer pobl ag anghenion mwy cymhleth fel ymddygiad heriol ac awtistiaeth a seibiant rheolaidd a rhagweladwy sydd ar gael drwy'r flwyddyn. Cyfeiriodd rhywun hefyd at yr angen am fannau diogel a gweithgareddau yn y gymuned y mae gweithwyr cymorth yn gallu mynd â phobl ifanc ag anghenion cymhleth iddynt er mwyn rhoi seibiant i deuluoedd. Er enghraifft, "Mae diffyg cyfleoedd am seibiant byr i deuluoedd a heb hynny rydym wedi gweld nifer o deuluoedd yn mynd i argyfwng gan arwain at leoliadau y tu allan i'r sir sy'n bell i ffwrdd" a "heb seibiant rheolaidd, ni all teuluoedd oroesi". Roedd pobl wedi nodi ei bod yn bwysig ystyried yr effaith ar deuluoedd, yn cynnwys anghenion brodyr a chwiorydd i blant ag anableddau dysgu. Dywedwyd hefyd ei bod yn bwysig gwrando ar rieni a helpu rhieni/gofalwyr i feithrin cydnerthedd a datblygu mecanweithiau ymdopi. Cyfeiriwyd hefyd at anghenion gofalwyr hyn, er enghraifft:

"Mae angen gwneud rhywbeth am y nifer mawr o ofalwyr oedrannus er mwyn:  
a. Sicrhau eu bod yn ddigon ffit yn gorfforol i barhau i ofalu; b. Cyflwyno eu meibion/merched i wasanaethau wedi iddynt ddod yn oedolion fel na fyddant yn cael cymaint o sioc pan na fydd eu rhieni'n gallu parhau i ofalu amdanynt. Er mwyn amcangyfrif y gost debygol o ddarparu gwasanaethau i'r grŵp cleientiaid hwn yn y dyfodol."

- **Ariannu:** Bod digon o gyllid ar gael i wasanaethau, er enghraifft, "Mae toriadau ar gyllidebau yn taro gwasanaethau statudol a bydd hyn yn effeithio ar unigolion, grwpiau a theuluoedd" a "Mae angen i'r llywodraeth ariannu gwasanaethau i bobl sy'n agored i niwed!". Roedd nifer bach o bobl wedi sôn am yr angen i gydweithio ac ystyried cyfuno cyllidebau i geisio delio â'r materion hyn a chyfeiriodd un person at y posibilrwydd y bydd darparwyr a derbynwyr taliadau uniongyrchol yn gorfod ad-dalu tâl am gysgu i mewn. Dywedodd person arall fod angen i ni wneud gwell defnydd o dechnoleg.
- **Cludiant:** Nododd pobl pa mor bwysig oedd cludiant iddynt er mwyn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau, yn cynnwys bod â rhywun sy'n gallu gyrru, pasys bws a chymhorthdal ar gyfer cludiant. Cyfeiriwyd hefyd at y system waled oren sy'n helpu pobl i ddefnyddio trafniadaeth gyhoeddus. Dywedodd un person: "Rwyf

yn colli gweithgareddau gyda'r hwyr am nad oes neb yn fy nheulu'n gyrru felly rwyf yn dibynnu ar dacsis, sy'n ddrud".

- **Y gallu i gael gwybodaeth:** Cyfeiriodd nifer bach o bobl at yr angen am fwy o wybodaeth am wasanaethau sydd ar gael, manylion am bwy sy'n gymwys i gael cymorth ganddynt ac argaeledd gwasanaethau yn Gymraeg. Awgrymodd un person y dylid rhannu gwybodaeth am gynigion sydd ar gael mewn cyfleusterau lleol fel canolfannau hamdden neu theatrau.
- **Datblygu'r gweithlu:** Roedd rhai pobl wedi sôn am bwysigrwydd hyfforddiant a chymorth i staff, yn enwedig gweithwyr cymorth. Cyfeiriwyd hefyd at bwysigrwydd hyfforddiant i'r gweithlu ehangach, fel hyfforddiant i feddygon teulu am anghenion pobl ag anableddau dysgu a sut i gysylltu â thimau cymunedol. Rhai o'r sylwadau ac awgrymiadau a gafwyd mewn adborth oedd:

"Yn aml mae gweithwyr cymorth yn cael tâl isel ac nid ydynt yn cael hyfforddiant a chymorth"

"Arolygiadau trwyadl a gwell recriwtio i wasanaethau sy'n darparu gofal i bobl ag anghenion cymhleth. Mae angen i bobl fod yn rhydd o gam-drin, rhaid i wasanaethau weithredu ar arferion gwael ymysg staff."

"Nid yw'r rhan fwyaf o staff yn deall yr effaith ar fywydau pobl, gan gymryd bod pawb yn gallu gwneud rhywbeth dim ond am eu bod nhw."

"Gofyn i unigolion a'u teuluoedd gyfrannu i hyfforddiant gweithwyr proffesiynol – yn enwedig ar gyfer penderfynwyr."

"Hyfforddiant digonol i staff cymorth: y wybodaeth ddiweddaraf am anghenion a hawliau pobl sydd ag anabledd dysgu; parch at bobl sydd ag anableddau dysgu; y Ddeddf Galluedd Meddyliol a gwneud dewisiadau/penderfyniadau; cyfathrebu/dysgu/dymuniadau a theimladau pobl – adnabod anghenion pob unigolyn ac addasu'r dull o weithredu; anghofio labeli a 'gweld' y person; galluogi pobl yn hytrach na gwneud pethau ar eu rhan; hyfforddi pobl ag anableddau i ddarparu hyfforddiant; cyfyngu'r defnydd o ffonau symudol gan staff cymorth pan ydynt yn gweithio; annog staff cymorth i gymryd rhan mewn gweithgareddau yn hytrach na dim ond mynd â rhywun i fan cyfarfod ac eistedd ar yr ochr, yn arsylwi."

"Mae arddull rheoli cefnogol da gan y darparwr gwasanaeth yn bwysig fel y mae cyfweiliadau archwilio/goruchwylio rheolaidd."

Roedd nifer mawr o bobl wedi sôn am bwysigrwydd **cydweithio rhwng staff iechyd a gofal cymdeithasol** a phartneriaid eraill er mwyn darparu gwasanaethau da a delio â materion ariannu. Roedd nifer bach hefyd wedi awgrymu bod angen gwell systemau i rannu gwybodaeth rhwng staff iechyd a gofal cymdeithasol. Rhai o'r sylwadau a gafwyd oedd:

“Efallai y byddai mantais mewn cyfuno cyllidebau iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer rhai gwasanaethau fel na fydd cyrff iechyd a gofal cymdeithasol yn ymladd ynghylch pwy sy'n talu am beth.”

“Rwyf yn gweld bod llawer o'r gwaith y mae'r nyrsys cymunedol yn ei wneud nawr yn ymwneud ag asesu ac ariannu a cheisiadau am gyllid. Mae hyn yn golygu bod llai o amser ar gael ar gyfer ymyriadau nyrsio a llawer o'r gwaith ymarferol y byddai nyrsys cymunedol yn arfer ei wneud. Byddai'n dda cael rôl benodol neu nyrs gyswllt i lenwi ceisiadau am gyllid, a hynny ar wahân i'r rôl nyrsio cymunedol er mwyn rhyddhau'r rôl i gyflawni ymyriadau iechyd penodol.”

“Mae angen mwy o ddealltwriaeth o'r hyn y mae ardaloedd eraill yn gallu ei ddarparu ac ystyried atgynhyrchu hynny yn yr ardal leol.”

“Gweithio ar draws timau a sefydliadau e.e. CAMHS a gwasanaethau anabledd, anabledd plant ac oedolion.”

“Rwyf yn credu y dylai'r holl awdurdodau lleol weithio yn yr un ffordd fel y byddwch yn gwybod eich bod yn rhoi gwybodaeth sy'n gyfredol ac yn gyson.”

“O ran rheoli, mae angen cydweithio gwell rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Gwasanaethau Cymdeithasol, rhannu targedau etc”

Roeddem hefyd wedi gofyn i bobl am **syniadau i wella gwasanaethau a fyddai'n gwneud y mwyaf o adnoddau sydd eisoes yn ein cymunedau**, yn cynnwys pobl ag anableddau dysgu, ffrindiau a theuluoedd, grwpiau cymunedol, sefydliadau gwirfoddol a gweithwyr proffesiynol. Roedd llawer o gefnogaeth i'r syniad y dylem 'helpu ein gilydd', yn ogystal â gwella cynhwysiant yn y gymuned ehangach, er enghraifft:

“Mae angen i ni wneud defnydd o'r holl wasanaethau yn yr holl sectorau, grwpiau cymunedol a sefydliadau gwirfoddol”

“Mae'n glir bod angen lleihau nifer y gwasanaethau sefydliadol a chael rhagor o weithgareddau yn y gymuned y bydd pobl ag anableddau dysgu yn mynd iddynt / yn cyfrannu iddynt”

“Mae'n bwysig cofio bod angen i'r camau mwyaf gael eu cymryd gan gymdeithas, nid gan yr unigolyn. Enghraifft syml o hyn yw rhywun sy'n eistedd wrth garreg drws adeilad, yn eistedd mewn cadair olwyn. Nid y person yw'r 'broblem' ond y ffaith nad oes ramp.”

“Credaf fod y cyfraniad gan unigolion i gymunedau yn bwysig yn ogystal â chymryd camau, boed y rheini'n rhai bach neu fawr, tuag at fwy o annibyniaeth.”

Ond roedd rhai pryderon hefyd am y pwysau y byddai hyn yn gallu ei roi ar bobl. Er enghraifft:

“Pa bethau y byddai pobl yn gallu eu gwneud i helpu ei gilydd? Byddai pobl yn gallu rhannu profiadau o Daliadau Uniongyrchol, ffurfio cydweithfeydd, cyfuno Taliadau Uniongyrchol etc. Fodd bynnag, a minnau [dros 60] mlwydd oed, rwyf wedi cael digon ac wedi cael fy nadrithio. Y cwbl rwyf am ei wneud yw ymddeol a bod yn fam i'm mab – nid ei reolwr gofal! Mae llawer o sôn yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant am gydgyhyrchu a defnyddio “cynheiliaid naturiol”. Er nad wyf yn gwrthwynebu'r pethau hyn, ni allwch ddibynnu ar ewyllys da gwirfoddolwyr. Mae teuluoedd fel ein teulu ni wedi treulio blynyddoedd yn ymladd am wasanaethau i'n meibion/merched. Ni ellir disgwyl i ni fod â digon o amser ac egni i ffurfio cydweithfeydd neu fentrau cymdeithasol neu elusennau i sefydlu gwasanaethau amgen i'n meibion/merched. A siarad yn gyffredinol, rwyf yn credu bod Gofal Cymdeithasol Oedolion yn sefydliad biwrocraidaidd annigonol nad yw'n canolbwyntio mewn gwirionedd ar les pennaf pobl sydd ag anableddau dysgu (er bod unigolion yn gweithio yn y gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Oedolion sy'n ymroddedig ac yn gwneud eu gorau dros bobl). Rwyf yn credu bod arnom angen model cymorth amgen.”

“Mae grwpiau gwirfoddol yn ceisio dod o hyd i arian drwy'r amser i gynnal eu gwaith ac yn aml bydd y gwaith hwn yn cael ei ysgwyddo gan nifer bach o wirfoddolwyr – a fyddai rhai ohonynt yn gallu cydweithio a rhannu'r baich?”

## Lle da i fyw

Roedd nifer bach o bobl wedi dweud mai'r lle y maent yn byw yw un o'r pethau sy'n gweithio'n dda. Er enghraifft:

“Mae gen i fywyd da yn fy lleoliad i oedolyn. Mae gen i fy ystafell fy hun a chi a theulu go iawn”

“Rwyf yn byw mewn tŷ byw â chymorth. Mae gweithiwr cymorth gyda ni drwy'r amser felly rydym yn gwybod ein bod yn ddiogel. Rydym yn mwynhau byw gyda'n gilydd mewn tŷ i ferched a mynd allan gyda'n gilydd.”

Dywedodd person arall fod eiriolaeth yn bwysig i'w helpu i ddod o hyd i le addas. Er enghraifft:

“Cefais lawer o gymorth gan y gwasanaeth eirioli i symud tŷ am nad oeddwn yn hapus ac nid oeddwn yn teimlo'n ddiogel yn fy hen dŷ felly symudais i fflat well. Cefais ddewis fy fflat ac rwyf wedi'i haddurno a rhoi'r dodrefn roeddwn am ei gael ynddi.”

Roedd pobl am gael mwy o ddewis o ran pwy roeddent yn byw gyda nhw. Roedd rhai wedi dweud bod cwmni anifeiliaid anwes yn bwysig iddynt.

Awgrymodd un person:

“Mae angen i Awdurdodau Lleol a Chyrff Iechyd ystyried prynu tai sydd wedi’u codi’n barod i gartrefu unigolion sydd ag anabledd dysgu yn eu sir gan gadw draw o’r ‘gymuned anabledd dysgu’ nodweddiadol”

Dywedodd nifer bach o bobl fod angen buddsoddi mwy mewn llety a chymorth cysylltiedig â llety, yn enwedig ar gyfer pobl ifanc.

### **Lleoliadau y tu allan i’r sir**

Cyfeiriodd nifer bach o bobl at anawsterau â lleoliadau y tu allan i’r sir. Dywedodd un person fod problemau o ran penderfynu amserol a bod rhai o’u hachosion wedi’u trafod gan banel 4 neu 5 gwaith. Dywedodd un arall:

“Roeddem wedi wynebu llawer o broblemau o ran tai am fod rhai siroedd yn gwrthod lleoli pobl o’r tu allan i’r sir. Os yw rhywun am fyw mewn lle penodol, dylai gael gwneud hynny.”

### **Rhywbeth i’w wneud**

Roedd nifer bach o bobl wedi sôn am y pwysigrwydd o gael rhywbeth ystyrion i’w wneud, nid rhywbeth i lenwi amser yn unig. Roedd y gallu i wneud gwahaniaeth yn bwysig iawn i nifer o’r bobl roeddem wedi siarad â nhw. Er enghraifft:

“Rwyf yn hoffi mynd i gyfarfodydd i ddweud wrth bobl beth sy’n bwysig i bobl eraill mewn siroedd eraill.”

“Rwyf yn hoffi helpu pobl yn y siop. Rwyf yn credu bod angen mwy o swyddi ar bobl.”

“Rwyf yn hoffi gwneud gwahaniaeth i bobl a siarad â phobl.”

Roedd nifer mawr o bobl wedi dweud bod eu swyddi’n rhywbeth sy’n gweithio’n dda. Roedd pobl yn aml yn dweud bod gwaith yn bwysig am ei fod yn gyfle i dreulio amser gyda ffrindiau a phobl y maent yn cyd-dynnu â nhw.

Roedd pobl wedi cyfeirio at nifer mawr o wahanol weithgareddau hamdden a oedd yn bwysig iddynt, yn cynnwys: gwirfoddoli, snwcer, tennis, pêl-fasged cadair olwyn, bowlïo deg, chwarae pêl, Men’s Sheds, cylchgronau, ffigyrau Star Wars, celfyddyd a gwersi celfyddyd, sinema, siopa, gwylïo’r teledu a ffilmiau, nofio, lliwio, gemau cyfrifiadur, papurau newydd, smwddio, gwylïo a chwarae pêl-droed, cerddoriaeth, theatr, dawnsio, mynd allan bob nos, clybiau chwaraeon, Buzz Club, noson gyri, mynd allan am bryd o fwyd, cerdded a gwylïau. Dywedodd nifer bach o bobl fod



angen mwy o weithgareddau a chyfleoedd hamdden i bobl ag anableddau dysgu, mwy o weithgareddau integredig yn y gymuned a grwpiau cymysg.

Roedd rhai pryderon am wasanaethau dydd ac awgrymiadau y dylem fabwysiadu model mwy cynhwysol ac integredig, er enghraifft:

“Nid wyf yn credu bod model y ‘gwasanaeth dydd’ yn gynaliadwy. Mae’n sefydliadol ac yn canolbwyntio ar gyfyngu yn hytrach nag integreiddio â’r gymuned. Dylem ganolbwyntio ar gydgyssylltu â chwmnïau’r sector preifat fel cyflogwyr i unigolion – rhoi pwrpas i unigolion a lleihau stigma cymdeithasol.”

“Pam mae gennym ganolfannau dydd o hyd lle mae pobl yn eistedd yn tynnu lluniau a pheintio pan fo modd eu hintegreiddio â chymdeithas yn aelod cadarnhaol o’r gymuned?”

“Mwy o allu i gael cyflogaeth â chymorth a symud o hynny i gyflogaeth â thâl.”

Roedd pryderon eraill ynghylch prinder swyddi a gweithgareddau addas, er enghraifft:

“Rwyf yn credu y bydd yn anodd i mi ddod o hyd i waith pan fydd [lleoliad gwaith] yn cau.”

Rhai o’r awgrymiadau a gafwyd oedd:

“Arwain drwy esiampl, gan Gyrrff Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol drwy gyflogi pobl ag anableddau dysgu”.

“Mwy o gydweithio â Chynghorwyr Anabledd yn y Ganolfan Waith gan ein bod yn gallu cael yr un buddion â’r bobl sy’n defnyddio ein holl wasanaethau ac er mwyn cael budd-daliadau mae’n ofynnol i ni gwrdd â’r gofalgwyr a’r bobl sydd â chyflyrau iechyd ac anableddau (os yw’n bosibl, wrth gwrs) i sicrhau eu bod yn cael gwybod am eu hawliau a’r ddarpariaeth sydd ar gael iddynt.”

## **Plant, pobl ifanc a theuluoedd**

Roedd pobl wedi sôn am y pwysigrwydd o ofalu bod plant anabl yn mynychu sesiynau gyda’u ffrindiau ac o gynnwys plant mewn grwpiau lleol sy’n bod eisoes yn y gymuned fel rhai mewn canolfannau hamdden neu theatrau. Roedd angen annog grwpiau lleol i helpu plant ag anableddau dysgu a deall na fydd angen cymorth un i un ar bob plentyn anabl. Mae angen amrywiaeth fwy o weithgareddau yn ogystal â rhannu gwybodaeth yn well am y gweithgareddau sydd ar gael.

## **Addysg**

Roedd dau berson wedi cyfeirio at anawsterau yng nghyswllt y broses o gael datganiad, gofyn am ddatganiad ac oedi. Dywedodd un person fod angen adolygu

ysgolion preswyl i weld a ydym yn “cael gwerth am arian, cymorth priodol a chymorth o ansawdd da”. Dywedodd un arall fod angen i leoliadau addysgol ddarparu “cysondeb, trefn i’r diwrnod a strwythur”. A dywedodd un arall:

“Rwyf yn credu y dylai gliniadur fod ar gael mewn ysgolion i bawb sydd â’i angen gan roi mwy o amser arnynt ar adeg arholiadau ac os bydd gweithwyr proffesiynol yn argymhell cymorth un i un, yna dylai’r lleoliad addysgol ei ddarparu’n ddigwestiwn.”

### **Ffrindiau, teulu a pherthnasoedd**

Dywedodd nifer mawr o bobl fod ffrindiau, teulu a pherthnasoedd yn bwysig iddynt. Roedd pobl hefyd wedi sôn am berthnasoedd da â staff a chydweithwyr. Nododd nifer bach o bobl hefyd fod cwmni anifeiliaid anwes yn bwysig iddynt. Er enghraifft:

“Rwyf yn credu bod teulu’n bwysig. Rwyf yn byw mewn lleoliad oedolion gyda phobl eraill ac mae hi’n garedig ac yn rhoi llawer o gymorth i mi.”

“Mae fy nghariad yn bwysig i mi”

Mewn ymateb i gwestiwn am y newid sydd ei angen, cyfeiriodd nifer bach o bobl at gymryd rhan yn y gymuned a mwy o gymorth i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol yn ogystal â chwrrd â ffrindiau a phartneriaid. Er enghraifft:

“Hoffwn gael perthynas, priodi a byw gyda fy ngŵr”

“Mae angen helpu pobl i feithrin a chynnal perthnasoedd â ffrindiau a phartneriaid mewn ffordd sy’n rhoi eu buddiannau nhw’n gyntaf ac nid anghenion eu rhieni/gofalwyr a gweithwyr cymorth.”

“Rydym yn byw mewn ardal lle gellid gwneud mwy i fynd â ni i’r awyr agored. Mae angen gwneud mwy i ddod â ni i gysylltiad â sefydliadau allanol a thrwy hynny rwyf yn credu y bydd pobl ag anableddau dysgu yn ennill ymddiriedaeth a chyfeillgarwch”

“Mwy o gymorth i ffurfio cyfeillgarwch a pherthnasoedd – pam na all rhywun alw heibio i dŷ y mae ffrind yn ei rannu i gael paned? Pam mae’n rhaid i rywun wneud pethau gyda’r bobl y mae’n byw gyda nhw bob amser?”

“Dylid annog unigolion i weithio ar sail eu gallu. Mae angen iddyn nhw gael eu grymuso gan eu ffrindiau a’u teuluoedd i ddod yn ddinasyddion yn eu cymuned eu hunain.”

### **Bod yn ddiogel**

Cyfeiriwyd at y pwysigrwydd o amddiffyn pobl sy’n agored i niwed fel y gallant deimlo’n ddiogel wrth fynd i mewn i’w cymunedau. Mae hyn yn cynnwys trin pobl â pharch fel na fyddant yn teimlo bod pobl yn edrych i lawr arnynt. Un awgrym oedd



cael mwy o blismyn ar eu rhawd fel y gallant ddod i adnabod eu cymuned ac fel y gall aelodau'r gymuned ddod i'w hadnabod nhw. Dywedodd person arall fod angen mwy o gymorth i bobl pan fyddant yn cael eu pryfocio am fod ag anabledd: "roedd pobl yn arfer fy mhryfocio i a'm cariad yn aml ond rydyn ni'n eu hanwybyddu nawr".

## **Bod yn iach**

Roedd pobl wedi tynnu sylw at yr angen i ystyried anghenion iechyd meddwl yn ogystal ag anghenion iechyd corfforol pobl ag anableddau dysgu a'r angen i leihau stigma ynghylch iechyd meddwl. Dywedodd nifer bach o bobl ei bod yn bosibl nad yw pobl yn meddwl am iechyd meddwl wrth feddwl am 'fod yn iach'.

Cyfeiriodd rhai pobl at yr angen am gymorth gwell i bobl ag anableddau dysgu mewn ysbytai. Er enghraifft:

"Mae angen gwella'r trefniadau mewn ysbytai pan fydd pobl ag anabledd dysgu yn cael eu derbyn i wardiau cyffredinol."

"Mae angen i nyrsys cyswllt aciwt ar gyfer anabledd dysgu fod ar gael mewn ysbytai bob amser i gynorthwyo pobl. Nid dim ond rhwng dydd Llun a dydd Gwener rhwng 9am a 5pm. Mae angen cyflwyno system effeithiol i adnabod pobl ag anableddau dysgu a all fod ag angen cymorth ychwanegol/addasiadau rhesymol pan fyddant yn cyrraedd yr ysbyty."

"Mae angen symud cyfrifoldeb ac ymwybyddiaeth i'r gymuned – mewn byd delfrydol, ni fyddai arnom angen nyrsys anabledd dysgu."

"Weithiau yn ein profiad ni mae gweithwyr iechyd proffesiynol yn rhagorol ac yn barod i weithio ar y cyd â darparwyr (gan mai'r rhain, wedi'r cyfan, sy'n adnabod yr unigolion rydym yn eu cynorthwyo orau). Rwyf yn cyfeirio'n benodol yma ar bractisau meddygon teulu, nyrsys ardal a staff ambiwlans. Fodd bynnag, mae'n ymddangos yn aml fod staff ysbytai yn rhy brysur neu'n amharod i roi o'u hamser i wrando a dod i ddeall sut mae pobl yn cyfathrebu, beth yw eu hanghenion cyffredinol, a sut gall ein staff eu helpu i ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl."

Roedd un person wedi tynnu sylw at yr angen i wella gwasanaethau iechyd aciwt ac wedi nodi bod angen defnyddio'r adnoddau a ddatblygwyd gan Sefydliad Paul Ridd i wella gofal mewn ysbytai.

Cyfeiriodd un person at yr angen am well cyfathrebu rhwng gweithwyr meddygol proffesiynol, ymwelwyr iechyd, bydwragedd a chleifion a'u teuluoedd. Soniodd un arall am yr angen am fwy o gysondeb pan fydd pobl ifanc yn symud i wasanaethau oedolion a rhoddodd yr enghraifft o wahaniaethau rhwng canllawiau ariannu ar gyfer gofal iechyd parhaus. Roedd nifer bach o bobl wedi sôn am anawsterau wrth geisio cael gwasanaethau a threfnu apwyntiad â meddyg, er enghraifft:

“Byddai’n beth da os oedd llythyrau o’r ysbyty yn haws eu darllen gan eu bod yn gymhleth”

“Trefnu apwyntiad â meddyg teulu – rhaid i mi ffonio am 8 o’r gloch y bore i gael apwyntiad”

Cyfeiriodd un person at yr angen i wella gwasanaethau rhwng gwasanaethau aciwt a gwasanaethau cymunedol, yn cynnwys yr angen am ragor o Therapyddion Galwedigaethol:

“Mae angen pontio’n well rhwng y claf mewnol a’r gymuned gyda rhagor o wasanaethau yn y gymuned i helpu i reoli a chynorthwyo pobl er mwyn sicrhau bod llai o leoliadau’n methu a gofalu’n well am bobl mewn lleoliadau ac yn eu cartrefi eu hunain.”

Cyfeiriodd person arall at yr angen i fod yn ymwybodol o golled synhwyraidd:

“Mae nifer mawr o bobl ag Anabledd Dysgu wedi cael colled synhwyraidd hefyd sydd yn aml yn cael ei hanghofio, boed hynny oherwydd y math o brofion a wneir neu am fod eu gofalwr yn methu â sylwi ar y golled ac yn priodoli anawsterau cyfathrebu i’r Anabledd Dysgu. Mae angen sicrhau bod mwy o bobl yn gallu cael y profion, gan ofalu bod y profion yn cael eu hegluro’n llawn, a bod gofalwyr yn dod yn ymwybodol o arwyddion colled synhwyraidd, a’r ffaith ei bod yn gyffredin yn y Gymuned Anabledd Dysgu.”

### **Plant, pobl ifanc a theuluoedd**

Roedd pobl wedi nodi bod angen i blant ag anableddau dysgu gael mynediad yn gynt at wasanaethau iechyd meddwl a hefyd fod angen mwy o gymorth i’w rhieni.

### **Y cymorth priodol**

Roedd pobl wedi tynnu sylw at y pwysigrwydd o gael y cymorth priodol i ddelio â newidiadau mewn bywyd a phontio ond wedi dweud hefyd fod angen cynnwys mwy na hynny o dan y thema hon. Mae hyn yn cynnwys cynorthwyo pobl i fod yn annibynnol, i gael dewisiadau, i gyfathrebu’n dda ac i gael eu trin yn dda gan weithwyr cymorth. Roedd un person wedi ailadrodd pwynt a godwyd yn y digwyddiad ‘Ymlaen Gyda’n Gilydd’ mai un egwyddor allweddol yw ‘darparu’r cymorth priodol ar yr amser priodol gan y bobl briodol’.

Cyfeiriwyd yn aml at gymorth da fel rhywbeth sy’n gweithio’n dda i bobl. Roedd nifer bach o bobl wedi dweud pa mor bwysig oedd bod yn annibynnol, cael dewisiadau ynghylch y cymorth y maent yn ei gael a chael y maint priodol o gymorth.

“Os gallwn ddewis fy oriau o gymorth fel y gallaf gael bywyd cymdeithasol”

“Byddai’n well pe byddem yn cael rhagor o weithwyr cymorth fel y gallem wneud mwy ac ennill mwy o annibyniaeth.”

“[Mae’n bwysig i mi] wneud fy mhenderfyniadau fy hun, cael fy nhrin fel unigolyn, a byw’n annibynnol mor hir â phosibl”

Roedd pobl wedi sôn am y pwysigrwydd o fod yn ddymunol wrth bobl, o drin pobl gyda pharch a hefyd o gael cymorth gan bobl y maent yn eu hadnabod ac yn gweithio’n dda gyda nhw. Rhai enghreifftiau o sylwadau am achosion lle nad yw hyn yn gweithio’n dda yw:

“Mae’r [gweithiwr cymorth] yn ddyn hoffus ond nid yw’n gweithio’n dda i mi.”

“Dydw i ddim yn hapus â’m gweithwyr cymorth. Dydw i ddim yn hoffi’r ffaith eu bod yn anghwrtais.”

Roedd cyfathrebu da a gwaith tîm a helpu ei gilydd hefyd yn bwysig iawn i bobl. Er enghraifft:

“gwrando, gwaith tîm, egluro pethau’n well”

“Mae angen sicrhau hefyd fod anghenion cyfathrebu pobl yn cael eu diwallu bob amser, ac nad rhieni a/neu ofalwyr yw’r unig bobl sy’n gallu eu helpu i gyfathrebu.”

Soniodd un person am y pwysigrwydd o helpu pobl i ddeall beth yw cymorth priodol. Er enghraifft:

“A yw pobl yn cael dewisiadau o ran y cymorth y maent yn ei gael er mwyn gwahaniaethu rhwng cymorth da a chymorth nad yw cystal?”

Cafwyd syniadau ynghylch ffyrdd i wella’r cymorth sydd ar gael, yn cynnwys:

“Mae angen ystyried ffyrdd i ddefnyddio adnoddau’n well, er enghraifft, cludiant i ddigwyddiadau a chymarebau staffio.”

“Mae angen i ddarparwyr gydgyssylltu â’i gilydd, dod at ei gilydd, dod ag unigolion yn ôl at ei gilydd.”

“Meddwl yn greadigol a hyd yn oed gweithio gyda staff o dŷ arall a rennir i alluogi pobl i wneud rhywbeth na fyddent yn gallu ei wneud fel arall.”

“Mae angen rhagor o wasanaethau ar gyfer yr unigolion hyn sydd â’r anghenion mwyaf fel na fyddant yn gorfod mynd o’r sir/yn bell oddi cartref i gael cymorth, oherwydd yn aml mae’r teuluoedd am eu cynnal yn eu cartrefi ac yn y gymuned ond yn teimlo nad ydynt yn gallu gwneud hynny heb gael mwy o gymorth a heb deimlo’n fwy galluog i integreiddio â’r gymuned”.

“Rydym hefyd yn rhoi gwybod i grwpiau am ddyddiadau gwyliau ac mae bob amser yn cael cynnig gwasanaeth mewn cyfnod pan na ellir ei ddefnyddio, ac nid ydym byth yn cael cynnig gwasanaeth ar y munud olaf wedi i rywun ganslo, wedi i ni ofyn am hynny. Nid yw plant yn dod ac nid yw’r rhieni hynny’n wynebu unrhyw ganlyniadau am hynny. Rydym yn ymwybodol y gall hyn fod am resymau sy’n ymwneud ag iechyd, ond os yw’r awdurdod lleol yn talu am 10 plentyn a dim ond 5 yn dod, dylid galw’r rhieni a gweld a ydynt yn rhai lleol. Mae hyd yn oed awr yn gallu bod yn achubiaeth i riant.”

“Tŷ diogel gyda’r cyfleusterau diweddaraf, NID ysbyty, pan fydd pobl ar y sbectwm awtistig mewn argyfwng. Rhywle lle byddant yn teimlo eu bod yn cael eu helpu a’u deall, NID rhywle lle maent yn teimlo eu bod yn cael eu cosbi am ryw drosedd anhysbys.”

“Cymorth da y mae’r unigolyn yn ei adnabod ac yn ymddiried ynddo sy’n gallu ei helpu i dyfu drwy ddysgu rhai sgiliau sylfaenol er mwyn cael mwy o annibyniaeth. Mae hyn yn golygu bod yr aelod o’r gwasanaeth yn bresennol o adeg y cyfweiliad a dewis yr ymgeisydd priodol. Mae hefyd yn golygu sicrhau cysondeb lle nad yw’r cymorth yn cael ei dorri a’i newid i fodloni’r asiantaeth darparu. Drwy sicrhau cysondeb, bydd yr unigolion yn cael cyfle i feithrin perthynas ymddiriedus sy’n bwysig i lesiant yr unigolyn.”

Roedd pryderon hefyd am bobl nad ydynt yn gymwys i dderbyn gwasanaethau neu sy’n syrthio rhwng dwy stôl o ran cymhwystra i dderbyn gwasanaethau, er enghraifft, rhwng gwasanaethau anabledd dysgu ac iechyd meddwl.

“Nid yw rhai unigolion yn cyrraedd y trothwy ‘ffurfiol’ ar gyfer derbyn gwasanaethau a gallant fethu â chael asesiad a gwasanaethau os penderfynir nad yw eu cyniferydd deallusrwydd yn dangos bod ganddynt anabledd dysgu.”

### **Plant, pobl ifanc a theuluoedd**

Cyfeiriodd rhieni at yr heriau sy’n codi ynghylch aros am asesiadau, yr amser a gymerir a’r angen i gyrraedd oed penodol cyn cael asesiad. Dywedodd rhieni hefyd fod arnynt angen gwell cymorth a chyd-ddealltwriaeth gan weithwyr proffesiynol wrth aros am asesiad. Er enghraifft, “peidio â cheisio rhoi bai ar y rhieni am ymddygiad eu plentyn wrth aros am asesiad... roedden nhw wedi fy anfon ar gyrsiau rhianta a gwneud i mi gredu mai fi oedd ar fai”.

Yn achos rhieni ag anabledd dysgu, dywedodd un person ei bod yn bwysig eu bod yn cael rhoi eu barn hefyd.

Rhai o’r awgrymiadau a gafwyd i wella gwasanaethau oedd:

“Mae angen rhagor o wasanaethau a fydd yn helpu plant a’u teuluoedd i ddelio ag anghenion cymhleth ac mae angen deall mwy am beth mae ardaloedd eraill yn gallu ei ddarparu ac ystyried atgynhyrchu hynny yn yr ardal leol”

### **Cyllidebau cymorth, taliadau uniongyrchol a chymorth sy’n canolbwyntio ar y person**

Dywedodd nifer bach o bobl a gymerodd ran yn yr arolwg fod y rhain yn gweithio’n dda, er enghraifft:

“Mae taliadau uniongyrchol yn cynnig cyfle i bobl ar ymylon cymdeithas i adennill rheolaeth ar y cymorth sydd ei angen arnynt ac arfer dewis gwirioneddol yn y penderfyniadau bywyd y mae’r mwyafrif ohonom yn eu cymryd yn ganiataol. Mae rhai pobl yn elwa o’r cyfleoedd hyn ac, yn eu tro, yn ffurfio’r mathau o gymorth sydd eu hangen arnynt.”

Roedd rhai pryderon hefyd ynghylch Taliadau Uniongyrchol, yn cynnwys sylwadau bod angen llawer mwy o gymorth ar bobl i’w defnyddio a’r anawsterau wrth geisio dod o hyd i weithiwr sy’n derbyn taliadau uniongyrchol. Rhoddodd un person enghraifft o’r anawsterau a gafodd wrth ddefnyddio taliadau uniongyrchol:

“Mae’r mab yn cael Taliadau Uniongyrchol ar hyn o bryd ac rydym yn cyflogi ei gynorthwywyr personol ein hunain. Rydym wedi gwneud hyn ers 3 blynedd. Ni chawsom gymorth gan y Gwasanaethau Cymdeithasol heblaw’r cymorth Taliadau Uniongyrchol a ddarparwyd gan [enw’r darparwr]. Roedd y cymorth hwn yn annigonol. Mae rhedeg a rheoli gwasanaeth i’r mab yn debyg i redeg cwmni gofal bach. Roedd yna ormod o waith a gormod o gyfrifoldebau. Felly penderfynasom roi’r gorau iddi fis Gorffennaf diwethaf a gofyn am gyllid ychwanegol i brynu gwasanaeth gan Ddarparwr. Cytunodd y Gwasanaethau Cymdeithasol ar hyn ond gadael i ni ddod o hyd i Ddarparwr ar ein pen ein hunain fwy neu lai a threfnu trosglwyddiad TUPE. Yn y diwedd nid oedd ond un Darparwr a oedd yn gallu cynnig gwasanaeth ac rydym yn ceisio delio â’r trosglwyddiad TUPE o hyd. Felly rydym wedi wynebu anawsterau ers 10 mis heb ddigon o staff am fod aelod staff rhan-amser wedi gadael a ninnau wedi methu â chael neb yn ei lle ac nid yw’r sefyllfa wedi’i datrys byth... Mae angen llawer mwy o gymorth ar bobl ag anableddau dysgu difrifol a’u teuluoedd i ddefnyddio Taliadau Uniongyrchol. Mae angen i’r trefniant Taliadau Uniongyrchol fod yn gynaliadwy hefyd gan na fydd rhieni’n gallu gwneud yr holl waith rheoli staff eu hunain am byth. Efallai y byddai’n well cael sefydliad (e.e. cydweithfa) yn gyflogwr”

## Cymorth i ddelio â newidiadau bywyd a phontio

Roedd nifer bach o bobl wedi cyfeirio at y pwysigrwydd o gael pontio da rhwng gwasanaethau plant a gwasanaethau oedolion. Rhai o'r sylwadau a gafwyd oedd:

“Mwy o gysondeb ar draws gwasanaethau iechyd pan fydd pobl ifanc yn symud i wasanaethau oedolion e.e. mae'r canllawiau ar ariannu gofal iechyd parhaus yn wahanol”

“Dylid rhoi blaenoriaeth i edrych ar holl anghenion y plant sy'n tyfu i fyny mewn ysgolion prif ffrwd ac arbennig cyn iddynt fynd i wasanaethau oedolion er mwyn helpu gyda'r anghenion a'r gwasanaethau ar gyfer y dyfodol. Wedyn gall gwasanaethau oedolion ddatblygu eu gwasanaethau yn ôl yr anghenion lleol.”

Soniodd nifer bach o bobl am anghenion gofalwyr hŷn a helpu pobl i fod yn barod am newidiadau, er enghraifft:

“Mae'n bwysig trafod cynlluniau ymarferol ar gyfer gofal eu hanwyliaid at y dyfodol gyda gofalwyr mewn da bryd.”

“Mae angen cynllunio ac ymyriadau cynharach, yn ogystal â chreadigrwydd ynghylch darparu gwasanaethau er mwyn i bobl barhau i fyw mewn amgylcheddau sydd yn aml yn rhai cariadus – gofal a rennir, symud i lety llai, gofal ychwanegol lle mae'r rhiant a'r person yn gallu parhau i fyw gyda'i gilydd gan roi sylw da i'w hanghenion a'u canlyniadau gwahanol a chyfnewidiol.”

## Casgliadau

Yn gyffredinol, roedd mwyafrif helaeth y bobl yr ymgynghorwyd â nhw yn cymeradwyo'r themâu. Ar sail yr adborth a gafwyd, rydym wedi'u newid i egluro beth rydym yn ei olygu wrth 'y cymorth priodol', wedi ychwanegu 'teulu' at y thema 'ffrindiau a pherthnasoedd', wedi newid 'rhywbeth i'w wneud' yn 'rhywbeth ystyrlon i'w wneud', wedi cynnwys thema 'blynyddoedd cynnar' ar wahân ac wedi sicrhau bod dull gweithredu gydol oes ac anghenion pobl ag anableddau dwys a lluosog wedi'u cynnwys ym mhob rhan o'r strategaeth. Bydd y canfyddiadau ac awgrymiadau eraill ar gyfer gwella cymorth yn cael eu hymgorffori yn y strategaeth a'r cynlluniau gweithredu. Bydd yr adroddiad hwn ar gael i'r cyhoedd hefyd fel y gellir ystyried y manylion wrth gyflawni gwaith arall.

## Digwyddiad 'Ymlaen Gyda'n Gilydd'

Roedd y digwyddiad yn sesiwn ymgysylltu cychwynnol â staff/partneriaid ar 'Ddatblygu ein Strategaeth Anabledd Dysgu' a gynhaliwyd ar 17 Ionawr 2017. Roedd 28 o aelodau staff o BIPBC a'r chwe awdurdod lleol wedi cymryd rhan. Hwyluswyd y digwyddiad gan BIPBC er mwyn cyfrannu at ddatblygu'r strategaeth hon. Trafodwyd y cryfderau a heriau presennol a'r hyn yr oedd angen ei newid.

Roedd y digwyddiad wedi pennu'r themâu allweddol a ganlyn ar gyfer datblygu strategaeth:

- Cydweithio ar sail cydweledigaeth/gwerthoedd a rennir
- Defnyddwyr gwasanaethau a chydgyhyrchu
- Arweinyddiaeth, llywodraethu ac atebolrwydd
- Comisiynu
- Staffio (yn cynnwys cysylltiadau â Strategaeth Datblygu Gweithlu Gogledd Cymru)
- Cynnwys staff wrth ddatblygu'r strategaeth

Yr egwyddorion sylfaenol a drafodwyd oedd:

- Rhannu cyfrifoldeb i weithredu'r ddeddfwriaeth.
- Y person yn gyntaf, anabledd dysgu yn ail.
- Y cymorth priodol ar yr amser priodol i'r bobl briodol yn y lle priodol.
- Na fydd neb yn profi oedi cyn derbyn cymorth oherwydd anghytuno rhwng gwasanaethau. Cydgyfrifoldeb i ddatrys anawsterau.

Y sylwadau a chatau gweithredu allweddol oedd:

- Bod y staff a oedd yn bresennol yn deall yr angen i gydweithio i ddatblygu strategaeth gadarn ar gyfer anableddau dysgu – roeddent i gyd wedi cyfrannu i'r digwyddiad cyfan a nifer bach iawn o gynrychiolwyr a oedd wedi gorfod gadael yn gynnar.
- Y consensws cyffredinol oedd y byddai angen datblygu cydweledigaeth a gwerthoedd a rennir yn sail i'r strategaeth. Roedd y gwaith hwn wedi dechrau yn ystod y sesiwn ond byddai'n cael ei hyrwyddo ymhellach.
- Nid oedd mor hawdd i'r cynrychiolwyr ddisgrifio galluoedd craidd y gwasanaeth Anableddau Dysgu ac felly byddai dadansoddi/trafod pellach yn arwain at well dealltwriaeth o'r sefyllfa bresennol.
- Roedd cydnabyddiaeth mai'r man cychwyn oedd hwn ac y byddai angen rhagor o ymgysylltu parhaus i ddatblygu'r Strategaeth Anabledd Dysgu ar gyfer Gogledd Cymru.
- Cytunwyd mai cynnwys pobl â phrofiad byw oedd y cam hanfodol nesaf.
- Bod rhaglen waith i'w datblygu yn dilyn y gwersi a ddysgwyd o ddatblygu'r Strategaeth Iechyd Meddwl.
- Cytunwyd bod y Grŵp Partneriaeth Anabledd Dysgu yn allweddol ond bod angen gwaith ar y cylch gorchwyl a'r aelodaeth.



## Fforwm darparwyr

Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf o fforwm darparwyr Gogledd Cymru ar 9 Ebrill 2018 ac roedd tua 60 o bobl yn bresennol o bob rhan o'r rhanbarth. Mae'r adroddiad llawn ar gael yn <https://www.cydweithredfagogleddcymru.cymru/fforwm-darparwyr-anableddau-dysgu-gogledd-cymru-9-ebrill-2018-adborth-or-digwyddiad/>

Ar sail yr adborth ar y diwrnod, diweddarwyd y themâu ar gyfer y strategaeth cyn eu hanfon ar gyfer ymgynghori ehangach. Ymysg y canfyddiadau eraill oedd yr angen am ddiffiniad manylach o'r themâu, egwyddorion a gwerthoedd (yn cynnwys y Gymraeg a'i diwylliant, eirioli a hunaneirioli) a'r rhwystrau a wynebir (yn cynnwys ystyriaethau o ran cludiant). Cafwyd trafodaeth am yr ystod eang o bobl yr oedd angen eu cynnwys wrth ddatblygu'r strategaeth. Roedd hyn wedi cyfrannu at y cynlluniau i hyrwyddo cyfathrebu ac ymgynghori ar gyfer y prosiect.

## Digwyddiad ymgysylltu â staff

Cynhaliwyd y digwyddiad ar gyfer staff awdurdodau lleol ac ieuchyd ar 18 Gorffennaf 2018 ac roedd mwy na 100 o bobl yn bresennol o bob rhan o'r rhanbarth. Mae'r adroddiad llawn ar gael yn:

<https://www.cydweithredfagogleddcymru.cymru/strategaeth-anableddau-dysgu-digwyddiad-i-staff-awdurdodau-lleol-ac-ieuchyd/>

### Canfyddiadau'r digwyddiad

Roedd y digwyddiad wedi darparu rhagor o wybodaeth am yr hyn yr oedd angen ei gynnwys o dan bob un o themâu'r strategaeth yn ogystal â syniadau ar gyfer camau gweithredu o dan bob thema. Y canfyddiadau cyffredinol oedd:

- Sicrhau ein bod yn cynnwys pobl ag anableddau dwys a lluosog yn y strategaeth – ystyried 'is-strategaeth' yn canolbwyntio ar y grŵp hwn. Hefyd cynnwys pobl sydd ar hyn o bryd yn byw mewn 'amgylchedd ysbyty' a phobl sydd ag angen cymorth oherwydd ymddygiad cyn troseddu ac ymddygiad troseddol.
- Parhau i hyrwyddo a datblygu [Dewis Cymru](#) yn ffynhonnell wybodaeth am y gwasanaethau a'r cymorth sydd ar gael mewn cymunedau lleol.

Roedd y digwyddiad wedi tynnu sylw at bwysigrwydd:

- Cydweithio, comisiynu a chynllunio ar y cyd, cyfuno adnoddau a rhannu sgiliau ac arferion da ledled Gogledd Cymru. Rhannu cyfrifoldeb a rhoi sylw i ddiffygion pan fydd pethau'n newid.
- Newid diwylliant – hybu ymwybyddiaeth a meithrin cyfeillgarwch a pherthnasoedd mewn cymuned gynhwysol er mwyn elwa i'r eithaf o'r asedau, adnoddau a sgiliau sydd ar gael.
- Gweithredu mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar y person.



- Datblygu'r gweithlu. Roedd yr awgrymiadau'n cynnwys ysgrifau portread clir / sgiliau ar gyfer staff sy'n darparu cymorth a hyfforddiant i'r gweithlu ehangach, yn cynnwys meddygon teulu a chynorthwyr gofal iechyd, ar addasiadau rhesymol a mesurau ataliol.
- Creu cysylltiadau rhwng y gwahanol themâu, er enghraifft, mae cael y cymorth priodol yn allweddol i sicrhau canlyniadau da yn yr holl themâu ac mae'r holl themâu'n cyfrannu at iechyd da.

## Cyfeiriadau

Cyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Gwynedd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Wrecsam 2016. Polisi Ymgysylltu â Dinasyddion Rhanbarthol Gogledd Cymru. Penaethiaid Gwasanaethau Oedolion Gogledd Cymru.

Llywodraeth Cymru 2015. Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: Rhan 9 Canllawiau Statudol (Trefniadau Partneriaeth).